

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth

Datganiad Polisi ar gyfer y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Cefndir

Mae gan Brifysgol Aberystwyth draddodiad clodwiw o gefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle ac yn falch o'r cynnydd o safbwynt gweithredu'n ddwyieithog ac o alluogi cydweithwyr i ddefnyddio ac i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Yn wir, mae'r Brifysgol wedi bod ymhlith y sefydliadau arweiniol yn y cyswllt hwn ers degawdau.

Cadarnheir hyn yn y ddogfen 'I'r Ganrif a Hanner Nesaf: Cynllun Strategol 2018-2023' ac yn yr is-gynllun i'r cynllun hwnnw. Ymhlith yr amcanion am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, byddwn yn:

- Annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a chael cyfleoedd i ddysgu a gloywi'r iaith;
- Rhoi gwell dealltwriaeth i staff newydd o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu'r Gymraeg ac o gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol-economaidd Cymru;
- Gweithredu fel catalydd i ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, gweithgareddau ac integreiddio diwylliannol.

Diben y Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, felly, yw adeiladu ar y traddodiad a'r ymrwymadau hyn yn y Cynllun Strategol gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Iaith Gymraeg a ddaeth i rym ar y 1af o fis Ebrill 2018. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r cyfraniad sydd gan y Brifysgol mewn perthynas â nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Ymrwymadau Prifysgol Aberystwyth uwchlaw'r Safonau

Yn ogystal â chwrdd â'r gofynion statudol mae'r Brifysgol yn awyddus i ddatblygu rhaglen uchelgeisiol o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rydym am wneud hyn drwy adeiladu ar y cynnydd a welwyd ers cyflwyno Cynllun Cyfannol Strategol y Gymraeg yn 2015. Cofnodir y gwaith hwn yn Is-gynllun y Gymraeg a'r Cynllun Cyfannol.

Targedau

Yn unol â thargedau'r Cynllun Cyfannol mae'r Brifysgol yn anelu at gael 90% o'r staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith a 50% o'r staff sy'n

dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl hefyd yn defnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.¹

Mae'r Brifysgol yn gweld ei hun yn bartner yn uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn y cyswllt hwn mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Fforwm Iaith Ceredigion ('Dyfodol Dwyieithog') i ddatblygu cyfleoedd i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Polisi hwn yn gyfle i osod targed uchelgeisiol ond cyraeddadwy sydd â'r nod o ddangos ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi'r Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Mae Cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg eisoes wedi dechrau gosod seiliau ar gyfer annog a rhoi cymorth ymarferol i ddysgwyr Cymraeg a'r rhai llai hyderus yn yr iaith i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Law yn llaw ag adran Dysgu Cymraeg y Brifysgol bydd y Brifysgol yn datblygu rhaglen a fydd yn anelu at gyrraedd y nod bod 50% o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn medru'r Gymraeg (ar lefelau B1 i C2) yn ystod y deng mlynedd nesaf.

Targedau Mesuradwy'r Polisi

90% o'r staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith (B2-C2).

50% o'r staff sy'n dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl (A1-B1) yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.

50% o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn medru'r Gymraeg (ar Lefel B1-C2) erbyn 2029.²

¹ Yn ôl data a gasglwyd ym mis Chwefror 2019 roedd 91% o'r siaradwyr rhugl a atebodd yr holiadur yn defnyddio'r Gymraeg ar lafar bob dydd neu bron bob dydd yn y gwaith. Roedd 35% o'r staff llai rhugl yn defnyddio'r Gymraeg ar lafar bob dydd neu bron bob dydd yn y gwaith.

² Ar hyn o bryd mae 35% o'r staff anacademaidd ar Lefel B1-C2. Mae 264 (20.3%) ar Lefel A1-A2. O'r cyfanswm o 1298 aelod staff, nid oes gwybodaeth ar gyfer 159 ohonynt. Y data yn gyfredol ar 22 Mawrth 2019.

Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith

1.0 Cwmpas

- 1.1 Amcan y polisi hwn yw rhoi gofynion Safon 105, Safonau'r Iaith Gymraeg, ar waith gan amlinellu sut fydd y Brifysgol yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ymhlith ei staff.
- 1.2 Y nod yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweithleoedd y Brifysgol gan annog a darparu cefnogaeth i staff ddefnyddio a gwella eu sgiliau dwyieithog a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gwaith.
- 1.3 Bydd y polisi hwn hefyd yn darparu sylfeini clir i'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Brifysgol i'w myfyrwyr a'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu gofynion y Safonau Iaith.
- 1.4 Bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu ei Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a bydd yn cadw cofnod o lefelau iaith staff gan roi cyfle iddynt eu diweddarau wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau. Bydd y Brifysgol yn cadw cofnod o ddewis iaith staff ar system PoblAber.
- 1.5 Bydd rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ofynion Safonau'r Gymraeg ac yn chwarae rôl ymarferol wrth hyrwyddo ymrwymadau'r Polisi hwn / wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- 1.6 Heblaw y nodir yn wahanol, mae'r darn dilynol yn cyfeirio'n uniongyrchol at Safonau'r Iaith Gymraeg a osodwyd ar y Brifysgol o 1af Ebrill 2018.
- 1.7 Ceir gwybodaeth bellach am y Safonau Iaith y mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig iddynt yma <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/> a cheir adran sy'n cynnwys canllawiau yr ychwanegir atynt yn barhaus <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/safonau/canllawiau/>. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau'n ymwneud â'r Safonau Iaith neu â'r polisi hwn at Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

2.0 Gohebiaeth

- 2.1 Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth gan staff yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.
- 2.2 Bydd gohebiaeth swyddogol ysgrifenedig, trwy lythyr neu e-bost, gan holl gyfadranau, adrannau academiaidd a gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol a anfonir at grŵp o staff neu at aelod unigol o staff yn ddwyieithog neu yn newis iaith yr aelod o staff os yw'n hysbys.

- 2.3 Os oes e-bost yn cael ei anfon at aelod unigol o staff gyda'r bwriad ei fod yn cael ei anfon ymlaen at grŵp o staff (e.e. o fewn Adran) yna bydd yr e-bost gwreiddiol yn ddwyieithog.
- 2.4 Os oes angen anfon gwybodaeth gan drydydd parti ymlaen drwy e-bost at grwpiau o staff, nid oes angen cyfieithu'r deunyddiau gan y trydydd parti ond dylid rhoi nodyn dwyieithog ar ddechrau'r e-bost (e.e. anfonir y neges hon ymlaen ar ran... / the following message is sent on behalf of...). Os yw'r trydydd parti wedi'i leoli yng Nghymru dylid gofyn am fersiwn dwyieithog o'r ddogfen.
- 2.5 Bydd hawl gan aelodau unigol o staff i ohebu gyda'r Brifysgol yn Gymraeg ac i dderbyn ateb i'r ohebiaeth honno yn Gymraeg.
- 2.6 Wrth ohebu ag aelodau unigol o staff ymrwymir i ddechrau gohebu yn Gymraeg â'r rhai sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith, a'r rhai y siaradwyd â hwy wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, yn Gymraeg yn y gorffennol. Ym mhob achos, gellir newid iaith yr ohebiaeth maes o law os dyna yw dymuniad y sawl y gohebir ag ef.
- 2.7 Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i sicrhau na fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi wrth dderbyn ymateb ac mae gan yr Uned Gyfieithu ganllawiau penodol i ddiogelu na fydd yr angen am gyfieithu gohebiaeth yn peri oedi cyn ateb.
- 2.8 Darperir gwasanaeth gwirio i staff sy'n drafftio yn y Gymraeg yn ôl yr angen.

3.0 **Galwadau ffôn**

- 3.1 Bydd staff sy'n ateb y ffôn ar ran adran neu wasanaeth yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog.
- 3.2 Bydd y gwasanaeth dwyieithog a fydd ar gael i fyfyrwyr a'r cyhoedd mewn derbynfeydd, ar brif rifau ffôn a llinellau cymorth y Brifysgol ar gael i staff hefyd.

4.0 **Cyfarfodydd**

Rhwng unigolion

- 4.1 Bydd gan staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r canlynol, a bydd y Brifysgol yn gwneud trefniadau priodol drwy gydol y broses:
- Rheoli Perfformiad
 - Cwynion

- Disgyblu
- Ymgynghoriadau ail-strwythuro adran neu wasanaeth
- Cyfweliad am swydd

Os nad yw'r sawl sy'n cynnal y cyfarfodydd uchod yn medru'r Gymraeg trefnir i aelod arall o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg i wneud hynny. Mewn amgylchiadau pan fydd hynny'n gwbl amhosibl, neu mewn sefyllfa lle byddai hynny yn amhriodol, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Cyfarfodydd torfol

4.2 Os bydd gwahoddiad i bob aelod o staff fynychu cyfarfod penodol neu gyfarfod arbennig (e.e. cyflwyniad i strategaeth y Brifysgol) bydd ganddynt hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw. Darperir cyfieithu ar y pryd i hwyluso hynny.

5.0 Pwyllgorau

5.1 Gall pwyllgorau weithredu'n uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog.

5.2 Gall unrhyw bwyllgor arall baratoi ei gofnodion neu ei ddogfennau'n ddwyieithog a gwneud cais am wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd y Brifysgol yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol.

6.0 Dogfennaeth

6.1 Bydd y Brifysgol yn darparu dogfennaeth yn Gymraeg i staff. Yn achos dogfennau drafft dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg o flaen llaw i dderbyn cyngor pellach.

7.0 Hyfforddiant Galwedigaethol

7.1 Bydd yr hyfforddiant canlynol ar gael yn Gymraeg i staff:

- Ymwybyddiaeth iaith
- Recriwtio a chyfweld
- Arweinyddiaeth
- Rheoli perfformiad
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Ymsefydlu

- Delio â'r cyhoedd
- Iechyd a diogelwch
- Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y gweithle.
- Marchnata a recriwtio myfyrwyr
- Ymarfer Academaidd

7.2 Pan fydd darparwr allanol yn cael ei ddefnyddio i gynnig hyfforddiant, bydd y Brifysgol yn ystyried pwysigrwydd a pherthnasedd darparu hyfforddiant yn Gymraeg (os yn wahanol i'r hyn a restrwyd uchod). Fel rhan o'r broses dendro, ac yn unol â gofynion Safonau 80-84, bydd y Brifysgol yn gofyn am wybodaeth parthed gallu'r trydydd parti i ddarparu gwasanaeth hyfforddi yn Gymraeg a gwneir pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn Gymraeg. Y darparwr allanol fydd yn gyfrifol am drefnu a thalu am gyfieithiadau ac am ddarparu hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg os oes angen.

8.0 **Defnyddio trydydd parti i ymgysylltu â staff**

8.1 Wrth dendro am wasanaeth cwmni allanol i ymgysylltu â staff y Brifysgol (e.e. cywain tystiolaeth, cynnal cyfarfodydd a/neu grwpiau ffocws, darparu holiaduron) dylid sicrhau bod ystyriaeth ddigonol o flaen llaw i'r modd y gellid darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Y darparwr allanol fydd yn gyfrifol am drefnu a thalu am gyfieithiadau ac am ddarparu hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg os oes angen. Dylid ymgynghori o flaen llaw gyda Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

9.0 **Gwefan y Brifysgol**

9.1 Bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu ei Strategaeth Gwefannau Dwyieithog (gw. Atodiad 1) sydd wedi'i diwygio i gynnwys gofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth ac i sicrhau bod y tudalennau sy'n berthnasol i staff yn unig yn parhau i fod yn ddwyieithog pan fydd hynny'n briodol.

9.2 Bydd gan y Brifysgol strategaeth ar gyfer cyfieithu meddalwedd ac apiau a ddefnyddir ar gyfer pwrpasau dysgu a phwrpasau gweinyddol pan fydd hynny'n briodol (ymhelaethir am hyn yn Atodiad 1).

9.3 Darperir meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg (Cysgliad) ar gyfrifiadur gwaith pob aelod o staff sy'n ei ddymuno. (gweler <https://myaccount.aber.ac.uk/protected/software/>)

10.0 **Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ymhlith staff**

- 10.1 Bydd y Brifysgol yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, hyfforddiant am y Safonau Iaith a hyfforddiant ar sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd gwybodaeth am y cyfleoedd i ddysgu'r iaith yn rhan o sesiynau cynefino i staff newydd.
- 10.2 Bydd gan staff yr hawl i fynychu dosbarthiadau Cymraeg am ddim, o lefel dechreuwr hyd at lefel gloywi iaith a'r cwrs Cymraeg Proffesiynol. Bydd Adnoddau Dynol yn datblygu polisi fel arweiniad i reolwyr llinell wrth alluogi staff i fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith.
- 10.3 Bydd y Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn cynnwys darn ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg er mwyn cofnodi cynnydd.
- 10.4 Bydd y Brifysgol yn gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog sy'n sail i gynllunio ieithyddol y gweithlu ar draws y Brifysgol.
- 10.5 Cynhelir Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg o'r staff bob dwy flynedd er mwyn canfod agweddau at ddefnydd iaith, anghenion hyfforddi a galluogi cynllunio strategol.
- 10.6 Anogir staff i ddangos eu gallu i siarad Cymraeg naill ai fel siaradwr rhugl neu fel dysgwr drwy wisgo bathodyn neu gortyn gwddf a thrwy ddangos logo perthnasol fel rhan o'u llofnod e-bost.
- 10.7 Bydd y Brifysgol yn cynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gydnabod cyfraniad siaradwyr Cymraeg a dysgwyr (e.e. Gwobrau Gŵyl Dewi). Bydd hefyd yn cynnal gweithgareddau i ddod â siaradwyr Cymraeg ynghyd i gymdeithasu yn yr iaith (e.e. Clwb Coffi, Cynllun Mentora).